



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

I: Benaethiaid ysgolion a cholegau addysg bellach.

19 Hydref 2020

Annwyl gydweithiwr

Rwyf wedi ymrwmo i roi gwybod i chi cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw benderfyniadau COVID-19 sy'n effeithio ar y sector addysg.

Dros y penwythnos, cyfarfu'r Cabinet i barhau a'n trafodaethau am gyfyngiadau caeth dros dro sy'n gyfyngedig o ran amser - sioc fer i droi'r cloc yn ôl, arafu'r feirws ac ennill mwy o amser i ni.

Cyfarfuom eto'r bore yma ac yr ydym heddiw wedi dod i'r penderfyniad anodd i gyflwyno cyfyngiadau caeth dros dro byr o bythefnos, gan ddechrau am 6pm ddydd Gwener yr wythnos hon ac yn dod i ben ar ôl hanner nos ar 9 Tachwedd.

Wrth i'r feirws ledu, yr ydym wedi dweud dro ar ôl tro mai plant fyddai ein prif flaenoriaeth pe bai angen cyfyngiadau pellach.

O ganlyniad, yr ydym wedi ceisio amddiffyn addysg gymaint a allwn.

- Bydd ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn ailagor fel arfer ar ôl hanner tymor ddydd Llun 2 Tachwedd.
- Bydd ysgolion uwchradd ar agor i blant ym mlynnyddoedd 7 ac 8, tra bydd disgyblion eraill yn parhau i ddysgu o gartref ar gyfer yr wythnos honno.
- Bydd y rhai sy'n sefyll arholiadau TGAU ac arholiadau mynediad Prifysgolion ym mis Tachwedd yn gallu gwneud hynny yn yr ysgol/coleg.
- Bydd myfyrwyr colegau addysg bellach hefyd yn parhau i ddysgu o gartref am yr wythnos sy'n dechrau 2 Tachwedd.
- Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer y cyfnod a fydd yn cynnwys disgwyliadau ar gyfer dysgu. Bydd hyn yn cynnwys athrawon yn cyflwyno gwersi ar-lein o'r ystafell ddosbarth.
- Mae trefniadau prydau ysgol am ddim eisoes wedi'u rhoi mewn lle ar gyfer hanner tymor a byddant yn parhau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn naw ac uwch am ail wythnos.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngu ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion a cholegau yn gyfraniad i'r ymdrech genedlaethol ehangach.

Gwn fod ysgolion a cholegau wedi dysgu gwersi o'r cyfnod clo cyntaf ac wedi cyflwyno trefniadau rhag ofn y bydd tarfu ar ddysgu'r tymor hwn.

Byddwn yn gweithio gyda chi, ein hawdurdodau lleol a'n hundebau'r wythnos hon i roi arweiniad pellach ichi.

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K'.

Kirsty Williams AS/MS

Y Gweinidog Addysg

Minister for Education